OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2025 Rhif (Cy. )

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A5 (Man i'r De o Fetws-y-coed, Conwy) (Gwahardd Cerbydau sy'n Lletach na 3 Metr Dros Dro) 2025

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *17 Chwefror 2025* |
| *Yn dod i rym* | *28 Chwefror 2025* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o gefnffordd yr A5, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1), (4) a (7) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**Enwi a chychwyn**

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A5 (Man i'r De o Fetws-y-coed, Conwy) (Gwahardd Cerbydau sy'n Lletach na 3 Metr Dros Dro) 2025 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 28 Chwefror 2025.

**Dehongli**

**2.** Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw cyfnodau ysbeidiol sy'n dechrau am 00:01 o'r gloch ar 28 Chwefror 2025 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

(**1**) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26), ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2025 No. (W. )

# ROAD TRAFFIC, WALES

## The A5 Trunk Road (South of Betws-y-Coed, Conwy) (Temporary Prohibition of Vehicles over 3 Metres Width) Order 2025

| | |
|---|---|
| *Made* | *17 February 2025* |
| *Coming into force* | *28 February 2025* |

The Welsh Ministers, as traffic authority for the relevant length of the A5 trunk road, are satisfied that traffic on a specified length of the trunk road should be prohibited because of works proposed on or near the road.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by section 14(1) and (4) of the Road Traffic Regulation Act 1984(**1**), make this Order.

**Title and commencement**

**1.** The title of this Order is the A5 trunk road (South of Betws-y-Coed, Conwy) (Temporary Prohibition of Vehicles over 3 Metres Width) Order 2025 and this Order comes into force on 28 February 2025.

**Interpretation**

**2.** In this Order—

"the trunk road" ("*y gefnffordd*") means the A5 London to Holyhead trunk road at Betws-y-Coed that extends from its junction with the A470 (Waterloo Bridge) south of Betws-y-Coed in a southerly direction to its junction with the B4406 to Penmachno;

(**1**) 1984 c. 27; section 14 was substituted by the Road Traffic (Temporary Restrictions) Act 1991 (c. 26), section 1(1) and Schedule 1. By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c. 32), these powers are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

ystyr “y gefnffordd” (“*the trunk road*”) yw cefnffordd yr A5 Llundain i Gaergybi ym Metws-y-coed sy’n ymestyn o’i chyffordd â’r A470 (Pont Waterloo) i’r de o Fetws-y-coed i gyfeiriad y de hyd at ei chyffordd â’r B4406 i Benmachno.

**Gwaharddiad**

**3.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd sy’n lletach na 3 metr ar y darn o’r gefnffordd.

**Cymhwyso**

**4.** Ni fydd y gwaharddiad yn erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i’r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

**Cyfnod para’r Gorchymyn hwn**

**5.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd ar ran Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 17 Chwefror 2025

*Nicci Hunter*
Arweinydd y Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru

“works period” (“*cyfnod y gwaith*”) means intermittent periods commencing at 00:01 hours on 28 February 2025 and ending when the temporary traffic signs are permanently removed.

**Prohibition**

**3.** No person may, during the works period, drive any vehicle with a width greater than 3 metres on the length of the trunk road.

**Application**

**4.** The prohibition in article 3 applies only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

**Duration of this Order**

**5.** The maximum duration for this Order is 18 months.

Signed on behalf of the Cabinet Secretary for Transport and North Wales, one of the Welsh Ministers.

Dated the 17 February 2025

*Nicci Hunter*
Business Team Leader
Welsh Government